# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (225)

**Dyddiad: Dydd Mercher 3 Tachwedd 2010**
**Amser: 13.30**

### Eitem 1: Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Gofynnwyd y cwestiwn.

**.........................................**

**13.31**
### Eitem 2: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

**.........................................**

**14.13**
### Eitem 3: Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**.........................................**

**14.58**
### Eitem 4: Dadl ar adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

**NDM4569 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Gorffennaf 2010.

*Noder: Ymateb y Gweinidog dros Faterion Gwledig a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Hydref 2010.*

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**.........................................**

**15.43**
### Eitem 5: Dadl ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru

**NDM4570 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 7.61(vii):

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2009/10, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mehefin 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

........................................

## 16.05
## Eitem 6: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

**NDM4571 Nick Ramsay (Mynwy)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i gywiro'r diffyg yn y gyllideb ac i adfer cyllid cyhoeddus cadarn;

2. Yn cydnabod sialensiau diweithdra sy'n deillio o'r dirwasgiad ac yn cefnogi dull gweithredu Llywodraeth y DU i flaenoriaethu meysydd gwariant sy'n hybu twf economaidd;

3. Yn croesawu disodli systemau budd-daliadau a chredydau treth ag un cynllun credyd cyffredin; ac

4. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu corff annibynnol i adolygu holl wariant Llywodraeth y Cynulliad.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 30 | 45 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth amharodrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymateb i bwysau ar y gyllideb drwy ymchwilio i wastraff ac aneffeithlonrwydd yn ei chyllideb ei hun.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **15** | **0** | **30** | **45** |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fabwysiadu dull gweithredu adeiladol yn ei hymateb i benderfyniadau gan Lywodraeth y DU i gywiro'r diffyg gan osgoi gwrthwynebu dim ond er mwyn gwrthwynebu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **15** | **0** | **30** | **45** |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliannau i’r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

**.........................................**

## 17.13
## Cyfnod pleidleisio

**.........................................**

## 17.15
## Eitem 7: Dadl Fer a ohiriwyd ers 13 Hydref 2010

**NDM4550 Johnathan Morgan (Gogledd Caerdydd):**

Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd: Democratiaeth ar Waith?

**.........................................**

### 17.39
### Cynnig trefniadol

Cafwyd cynnig trefniadol gan Nick Ramsay yn unol â Rheol Sefydlog 7.26 i ohirio’r ddadl fer.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

.........................................

## Eitem 8: Dadl Fer – wedi’i gohirio

**NDM4568 Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Gwarchod Gwasanaethau Iechyd Gwledig

Cafodd y ddadl fer ei gohirio gan gynnig trefniadol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 17.40.**

.........................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 9 Tachwedd 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**